CYFFES FFYDD

39. Am swper yr Arglwydd.

Y mae swper yr Arglwydd, yr un modd â bedydd, yn ordinhad arwyddocaol a sacramentaidd, ac nid oes ond y rhai hyn felly (a). Yn yr ordinhad hon, trwy dorri, rhoddi, a derbyn bara, a rhoddi a derbyn y cwpan, ac yfed ohono, y dangosir yn yr eglwys farwolaeth ein Harglwydd hyd oni ddelo ar y cwmwl (b). A gwneir hyn, yn ôl ei orchymyn, er cof amdano, yn ei Berson, ei gariad, ei ddarostyngiad, ei ddioddefaint, ei angau, a'i iawn digonol (c), ac er proffesu ein bod yn ei wir dderbyn, credu ynddo, ei garu, ymborthi trwy ffydd arno, ac yn un ag ef, ac â'n gilydd ynddo, yn filwyr da iddo, ac yn byw i'r hwn a fu farw drosom (d).

Ordinhad er maeth a chynnydd mewn gras ydyw hon, ¡'w harfer yn aml yn yr eglwys, gan yr holl aelodau ag a fyddo yn gallu iawn farnu corff yr Arglwydd, eu holi eu hunain, a gwneuthur hyn er cof amdano (e). Gweinidogion yr efengyl sydd i weinyddu yr ordinhad hon, yn ôl trefn Crist. Hwynt-hwy sydd i neilltuo yr elfennau, sef y bara a'r gwin, trwy weddi a diolch, i dorri y bara, cymryd y cwpan, a bod yn gyfrannog o'r elfennau eu hunain, ac yna i weinyddu i'r gynulleidfa (f). Y mae yr anwybodus, a'r rhai y gellir gwybod wrth eu hymddygiadau eu bod yn annuwiol, neu rai yn proffesu duwioldeb wedi syrthio i ryw bechod, tra y byddont heb edifarhau a diwygio yn eu buchedd, yn anaddas i fod yn gyfranogion o swper yr Arglwydd; ac os byddant gyfrannog, byddant yn euog o gorff a gwaed yr Arglwydd, a bwytânt ac yfant farnedigaeth iddynt eu hunain (g).

39. Of the Lord's Supper.

The Lord's Supper is, equally with baptism, an ordinance symbolical and sacramental; and no other ordinance than these two is such (a). In this ordinance, by breaking, giving, and receiving bread, by giving, receiving, and drinking of the cup, is shown in the church our Lord's death till he come in the clouds (b). This is done by his command, in remembrance of him, – of his person, his love, his humiliation, his sufferings, his death, and his all-sufficient propitiation (c). By this means we profess that we truly receive him, believe in him, love him, feed upon him by faith, are united to him, and, in him, to one another; and, as good soldiers of Christ, live unto him who died for us (d).

This is an ordinance for the nourishment and growth of believers in grace, to be often observed in the church by all who can discern the Lord's body, examine themselves, and do this in remembrance of Christ (e). It is to be administered by ministers of the gospel, as Christ has prescribed. It is for them to set apart the elements of bread and wine with prayer and thanksgiving, break the bread, take the cup, partake themselves of the elements, and then distribute them to the congregation (f). Ignorant persons and the openly profane, or those who, professing godliness, have fallen into sin, are unworthy, till they repent and amend their ways, to partake of the Lord's Supper: and, if they partake, are guilty of the body and blood of the Lord, and eat and drink damnation to themselves (g).

(a) 1 Cor. 10:16-17,21, 11:23-26, 12:13.

(b) Math./Matt. 26:26-28; Marc/Mark 14:22-24; Luc/Luke 22:19-20; 1 Cor. 11:26.

(c) 1 Cor. 11:24-25.

(d) Ioan/John 1:12, 6:53-58; Eff./Eph. 3:17; 1 Cor. 10:17; 2 Tim. 2:3; 2 Cor. 5:15.

(e) 1 Cor. 11:26, 28 gwêl/see (b); Actau/Acts 2:42,46, 20:7; Ioan/John 6:54-57 gwêl/see (f) 1 Cor. 4:1, 10:17 gwêl/see (a); Rhuf./Rom. 10:15; Math./Matt. 28:19-20; Marc/Mark 14:23.

(g) 1 Cor. 11:27, 29; 2 Thes. 3:6, 14; Salm/Psa. 50:16-17; 2 Cor. 6:16-17.